## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru

## Eich Cymuned, Eich Dewis

### Cyflwyniad gan y Comisiynydd, Mr Winston Roddick a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru, Mr Richard Debicki

Ers i ni lansio'r cynllun grant cyllideb gyfranogol cyntaf yn 2013 rydym wedi gallu cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau sydd wedi bod o fudd i lawer iawn o bobl yn ein cymunedau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu modd i ni fuddsoddi dros £80,000 mewn prosiectau ar lawr gwlad - prosiectau sy'n gwneud ein cymunedau yn llefydd mwy diogel byth i fyw, i weithio ac i gael hwyl ynddynt.

Mae pobl gogledd Cymru wedi parhau i gyflwyno syniadau cadarnhaol, arloesol ar gyfer lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi gweithio'n agos â'u timau plismona cymdogaeth er mwyn datblygu a gwireddu'r syniadau hyn.

Mae 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yn fenter ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru y bu modd ei sefydlu o ganlyniad i arian o Gronfa'r Comisiynydd ynghyd ag arian a atafaelwyd gan droseddwyr dan y Ddeddf Elw Troseddau. (POCA).

Rydym yn gwerthfawrogi'r perthnasau cryf yr ydym eisoes wedi'u meithrin gyda'n cymunedau, a bydd mentrau fel hyn yn sicr yn cryfhau'r cysylltiadau wrth i ni gydweithio i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng ngogledd Cymru.

Wrth ddatblygu eich cais cofiwch ystyried sut y bydd eich prosiect yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol sydd i'w weld ar wefan y Comisiynydd: **www.northwales-pcc.gov.uk**

Os byddwch angen unrhyw gyngor ynghylch sut i ddatblygu ceisiadau am nawdd, mae croeso i chi gysylltu â'ch timau plismona cymdogaeth lleol – mae eu manylion i'w gweld ar wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.north-wales.police.uk**

Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb a dymunwn yn dda i chi gyda'ch cais.



**Winston Roddick CB QC**



**Assistant Chief Constable Richard Debicki**

